

*TORFAEN
COUNTY
BOROUGH*



*BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN*

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**CYNGOR YMGYNGHOROL
SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2021-2022

NEGES GAN AELODAU CYSAG TORFAEN

Mae blwyddyn academaidd 2021-2022 wedi parhau i fod yn amser digynsail i bobl yn sgil effaith pandemig Covid-19. Mae aelodau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) yn cydymdeimlo â phawb y mae'r firws wedi effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai sy'n sâl a'r rheini sydd wedi colli anwyliaid. Hoffai'r aelodau hefyd fynegi diolch i bawb yn y sector addysg am y gwaith rhagorol yr ydych yn ei wneud i ddarparu gofal, cymorth ac addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru er gwaethaf yr holl heriau a'r ansicrwydd a wynebwyd yn ystod ail flwyddyn y pandemig.

Hoffai'r aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol bod CYSAG yma i'ch cefnogi gyda chynngor ar addysgu, dysgu ac adnoddau Addysg Grefyddol, yn ogystal â chynngor ar AG yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Yn ogystal â hyn, mae cymorth gan CYSAG hefyd ar gael ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.

Mae CYSAG Torfaen yn croesawu gohebiaeth drwy'r cysylltiadau isod:

Lisa Hamer, Swyddog Cymorth Busnes

Lisa.Hamer@torfaen.gov.uk

Hayley Jones, Partner Cwricwlwm (CYS a CGM) – GCA De-ddwyrain Cymru

hayley.jones@sewaleseas.org.uk

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL TORFAEN**

2021- 2022

CYNNWYS	TUDALEN
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG	3
1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG	3
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	3
1.3 Aelodau CYSAG	3
1.4 Swyddogaethau CYSAG	4
1.5 Cyfarfodydd	4
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	4
CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDY GAN CYSAG	5
ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL	9
2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol	9
2.2 Safonau mewn AG	9
2.3 Dulliau Addysgu, Deunydd Addysgu a Hyfforddi Athrawon	10
ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD	12
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	12
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	12
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	12
ADRAN 4: MATERION ERAILL	13
4.1 Cymdeithas CCYSAGauC	13
4.2 Addysg yr Holocost	13
4.3 Cwricwlwm i Gymru 2022	13
4.4 Hyfforddi Aelodau CYSAG	14
4.5 Aelodau CYSAG	14
ATODIAD 1: AELODAU CYSAG TORFAEN HYDREF 2020 – HAF 2021	15
ATODIAD 2: RHESTR CYFARFODYDD AC AGENDAU'R CYFARFODYDD	16
ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD	18

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG
AR ADDYSG GREFYDDOL TORFAEN**

2021- 2022

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Addysg Lleol (Awdurdodau Lleol) sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) yn ei ardal leol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG

Mae angen y gynrychiolaeth ganlynol ar CYSAG: -

- (i) Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill a chredoau athronyddol di-grefydd eraill fel, a fydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal mewn ffordd briodol. Er 2018, ar gyfarwyddyd Aelod Cabinet Addysg Llywodraeth Cymru, gall dyneiddwyr fod yn aelodau llawn o'r Pwyllgor hwn yn ogystal â grwpiau credoau eraill sy'n cyfateb i gredoau crefyddol;
- (ii) Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon;
- (iii) Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol y dylai CYSAG gynnwys pedwar aelod etholedig, pedwar corff ar ddeg sy'n cynrychioli crefydd a chred a saith cynrychiolydd cymdeithasau athrawon. Yn ogystal, caniatodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol. Mae'r ddau le cyfetholedig yn wag ar hyn o bryd (gweler 1.3 ynglŷn â chamau i lenwi swyddi gwag).

1.3 Aelodau CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth sy'n dangos y sefyllfa yn 2021 – 2022 i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae CYSAG yn parhau i ymdrechu i geisio cynrychiolaeth ehangach gan sefydliadau crefyddol, ond cafwyd oedi cyn dod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a newidiadau i arferion gwaith. Yn ystod 2021-2022 gohiriwyd y broses hon a chaiff ei hail-ystyried yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

O ran Pwyllgor B, mae CYSAG wrthi'n cysylltu ag ysgolion i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer y ddau le gwag ar y pwyllgor.

Mae CYSAG Torfaen hefyd wedi dyrannu eu dau le cyfetholedig i gynrychiolwyr ieuencid ac mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r lleoedd hyn. Mae CYSAG yn edrych ymlaen at weld pobl ifanc yn ymuno â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) yn y dyfodol.

1.4 Swyddogaethau CYSAG

- Cyngori'r awdurdod lleol ar addoli a'r addysg grefyddol i'w rhoi yn unol â'r maes llafur cytunedig gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunydd a hyfforddiant i athrawon
- Ystyried pa un a ddylid argymhell bod yr awdurdod lleol yn adolygu ei faes llafur
- cytunedig presennol drwy gynnal Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytunedig.
- Ystyried pa un a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoli crefyddol mewn ysgol sirol fod yn 'lled Gristnogol ei natur' (penderfyniadau)
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru am ei weithgareddau.

1.5 Cyfarfodydd

Oherwydd y tarfu parhaus yn sgil pandemig Covid-19, fe wnaeth swyddogion ac aelodau ddelio â gohebiaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

Roedd CYSAG wedi penderfynu, lle bo hynny'n bosibl, y bydd gan y cyfarfodydd gworwm yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 a byddant yn cael eu cynnal ar blatfform rhithwir Microsoft Teams yn y lle cyntaf.

27 Ionawr 2022 (gohiriwyd)
16 Chwefror 2022
5 Gorffennaf 2022 (rhannu gwybodaeth)

Mae CYSAG wedi penderfynu y caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn lleoliadau amgen fel ysgolion neu fannau addoli lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â phandemig Covid-19 yn 2021/22, nid oedd CYSAG yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb ac felly cynhaliwyd y tri chyfarfod CYSAG ar-lein drwy Microsoft Teams.

1.6 Dosbarthu'r Adroddiad

Caiff copïau o'r adroddiad eu dosbarthu'n electronig i'r cyrff a'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan Cymdeithas CCYSAGauC.

CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG

ADDYSG GREFYDDOL

Mater

Monitro'r ddarpariaeth a safonau mewn AG

Cam

1. Mae CYSAG yn ystyried adroddiadau arolygu ysgolion ac yn eu dadansoddi. Os bydd unrhyw broblemau o ran AG, megis methu â chyflawni gofynion statudol, yna bydd yr ALI yn cymryd camau dilynol. Yn ystod 2021-2022 cafodd y broses ei gohirio ac eir ati i'w ail ystyried yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.
2. Mae CYSAG fel arfer yn ymweld ag ysgolion bob blwyddyn i dderbyn cyflwyniad ar AG yn yr ysgol. Ond oherwydd effaith pandemig Covid-19 ni wnaeth CYSAG ymweld ag unrhyw ysgolion yn ystod 2021-2022.
3. Bu'n arfer gan CYSAG i ddadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd gan nodi tueddiadau o ran meincnodi perfformiad yng nghyd-destun holl ddata Cymru. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r broses hon wedi'i gohirio a bydd yn cael ei hail ystyried yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

Mater

Bodloni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytunedig ar gyfer AG bob pum mlynedd a sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r maes llafur cytunedig ar waith

Cam

1. Yn ystod tymor y gwanwyn 2008 cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog faes llafur cytunedig newydd a'i fabwysiadu ar gyfer ysgolion y sir, i'w weithredu o fis Medi 2008. Ym mis Mehefin 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig (CMLIC) ail-fabwysiadu'r maes llafur cytunedig i Dorfaen ar gyfer addysg grefyddol.
2. Fe wnaeth y CMLIC gymeradwyo ail-fabwysiadu'r maes llafur cytunedig presennol ar gyfer addysg grefyddol yn Nhorfaen gyda dealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei ddisodli gan faes llafur cytunedig y Cwricwlwm i Gymru wrth iddo gael ei gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2022. Mae ysgolion uwchradd wedi cael eu cynghori i barhau i ddilyn y maes llafur hwn tan y cyflwynir y CGM.
3. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau statudol CGM ar Hwb, ar 10 Ionawr 2022. Cynghorodd CYSAG yr ALI ynghylch canllawiau statudol ar gyfer CGM i gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2022, fe wnaeth y CMLIC ymgynnull i lunio maes llafur cytunedig newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, i'w gyflwyno i Dorfaen. Gorffennaf 2022 fe wnaeth Torfaen a CYSAG fabwysiadu

maes llafur cytunedig newydd ar gyfer ysgolion y sir, i'w weithredu o fis Medi 2022 i bob dysgwr oed cynradd, hyd at, ac yn cynnwys Blwyddyn 6. O ran dysgwyr Blwyddyn 7, bydd gan ysgolion yr hyblygrwydd o ran a ydynt am gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i Flynyddoedd 7 ac 8 ar y cyd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol neu leoliad uwchradd 'fabwysiadu' Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn benodol, bydd y maes llafur cytunedig i Dorfaen yn disodli'r maes llafur presennol/hen faes llafur cytunedig i Dorfaen.

4. Mae'r maes llafur cytunedig yn nodi'r manylion ynglŷn ag addysgu a dysgu yn yr elfen orfodol sef Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer pob ysgol a lleoliad a gynhelir gan Dorfaen. Mabwysiadwyd y ddogfen fel maes llafur cytunedig ar gyfer CGM yn Nhorfaen yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae Torfaen wedi mabwysiadu'r ddogfen fel y maes llafur cytunedig ar gyfer CGM ym mis Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod Lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ym mis Gorffennaf 2022. Mae copïau o faes llafur cytunedig Torfaen 2022 ar gael ar wefan y cyngor, trwy Bartner Cwricwlwm GYA ar gyfer CGM a CYS, a gan Glerc CYSAG.

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cael gwybod am adnoddau addas ar gyfer AG.

Cam

Anfonwyd y wybodaeth a'r adnoddau canlynol i ysgolion ac anfonwyd copi o'r wybodaeth i Aelodau CYSAG:

1. Cafodd ysgolion wybod am Wythnos Rhyng-ffydd 2021, ddydd Sul 14 Tachwedd tan ddydd Sul 21 Tachwedd. Gellir dod o hyd i'r adnoddau ar eu gwefan <https://www.interfaithweek.org> – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd sy'n addas ar gyfer plant cynradd i ôl-16.
2. Cafodd ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2022 'Un Diwrnod'. Mae adnoddau'r Holocost i'w gweld ar eu gwefan www.hmd.org.uk - yn eu plith cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleuni gwaith addas ar gyfer myfyrwyr cynradd i ôl-16.
3. Parhaodd CCYSAGC i ddarparu adnoddau a chyngor ar gyfer AG ac addoli ar y cyd a gafodd ei ddosbarthu i ysgolion drwy CYSAG.
4. Cafodd ysgolion wybod am ymgynghoriadau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dyniaethau a'r CGM.
5. Anfonwyd Cyfarfodydd Rhwydwaith AC Uwchradd sy'n cynnig cefnogaeth i arweinwyr y cwricwlwm, i bob ysgol uwchradd drwy'r Rhwydwaith Dyniaethau.

HYFFORDDIANT PROFFESIYNOL I ATHRAWON

Mater

Sicrhau bod athrawon yn gallu cael gafael ar hyfforddiant proffesiynol a phriodol.

Cam

Mae'r egwyddor cyfrifolaeth yn y Cwricwlwm i Gymru, a'r GCA wedi cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i bob ymarferydd yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar rannu arferion a grymuso athrawon.

Mae'r GCA wedi darparu hyfforddiant AG penodol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy'r Partner Cwricwlwm ar gyfer CGM a CYSAGau. Yn ystod 2021-2022, darparodd y GCA PL penodol i ymarferwyr ysgolion cynradd ac uwchradd drwy gyfarfodydd Dyniaethau 'r Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a Phartner y Cwricwlwm ar gyfer CGM a CYSAGau. Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer Dyniaethau a'r CGM yn cynnwys gweithredu Cwricwlwm i Gymru 2022, yn ogystal â newidiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â CGM ac Amrywiaeth.

Cafodd ysgolion yn y rhanbarth hefyd sesiynau Briffio i Benaethiaid ynghylch CGM, gyda'r nod o ddeall gofynion gorfodol CGM, datblygu dealltwriaeth o CGM a'r modd y mae wedi esblygu yng nghyd-destun y cwricwlwm i Gymru ac ystyried rhai o'r materion cynllunio neu weithredu a allai godi oherwydd y fframwaith CGM newydd mewn ysgolion.

Cafodd ysgolion wybod am Wythnos Rhyng-ffydd 2021, dydd Sul 14 Tachwedd i ddydd Sul 21 Tachwedd. Gellir dod o hyd i'r adnoddau ar eu gwefan <https://www.interfaithweek.org> - mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd sy'n addas ar gyfer plant cynradd i ôl-16.

Cafodd ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2022 'Un Diwrnod'. Mae adnoddau'r Holocost i'w gweld ar eu gwefan www.hmd.org.uk - yn eu plith mae cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunyddiau addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafenni gwaith sy'n addas ar gyfer myfyrwyr cynradd i ôl-16.

Parhaodd CCYSAGC i ddarparu adnoddau a chynngor ar AG ac addoli ar y cyd a gafodd ei ddosbarthu i ysgolion drwy CYSAG.

Cafodd ysgolion wybod am ymgynghoriadau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dyniaethau a CGM.

Rhannwyd y Prosiect Dylunio Cwricwlwm Traws rhanbarthol gyda Lucy Crehan gydag ysgolion, a'i gyhoeddi ar Hwb.

Gwahoddwyd athrawon i rannu arfer da gyda CYSAG.

Comisiynodd CCYSAGC ddysgu proffesiynol penodol yn ymwneud â CGM, gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac mae CYSAG wedi croesawu'r cynllun peilot a'r cyflwyniad cyn dosbarthu'r cyhoeddiad yn nhymor yr hydref 2022.

ADDOLI AR Y CYD

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn bodloni gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Cam

1. Mae CYSAG yn monitro adrannau adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC) ac mae'r ALL yn cymryd camau dilynol os bydd unrhyw achos o fethu â chyflawni gofynion statudol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Serch hynny, yn y blynyddoedd diweddar, gohiriwyd y broses hon a byddwn yn dychwelyd ati yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.
2. Mae CYSAG wedi rhoi gwybod i ysgolion am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e., DCH 2021-2022.
3. Penderfynodd CYSAG gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y Sir ac arsylwi ar weithred addoli ar y cyd lle bo modd, i fonitro gofynion statudol, darpariaeth, ac ansawdd addoli ar y cyd. Oherwydd cyfyngiadau pandemig Covid-19 nid oedd CYSAG yn gallu arsylwi addoli ar y cyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

MATERION ERAILL:

Nod: Sicrhau bod CYSAG yn fwy hyddysg drwy roi diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG wedi parhau yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae'n cael adborth bob tymor o gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae'r Partner cwricwlwm ar gyfer CGM a CYS yn aelod o PYCAG ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG.
3. Mae aelodau CYSAG yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac i ddeall rôl a swyddogaeth CYSAGau.
4. Mae CYSAG yn cymryd Addysg yr Holocaust o ddifri ac yn cynghori'r ALL a'i ysgolion ynglŷn â hyn.
5. Mae CYSAG wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r goblygiadau ar gyfer addysg grefyddol. Mae CYSAG wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru.
6. Byddai CYSAG, lle bo modd, yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn Nhorfaen er mwyn i aelodau ymgysgu ag AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Eleni nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod mewn ysgol oherwydd y cyfyngiadau pandemig Covid-19.

ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL

2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol

Yn 2008 cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Sefydlog, faes llafur cytunedig newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod i'w weithredu o fis Medi 2008. Mae cysylltiad agos rhwng y maes llafur cytunedig a'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG. Cafodd deunydd cymorth cynhwysfawr, yn cynnwys cynlluniau gwaith a ffeiliau electronig *Cynnydd wrth Ddysgu* ar gyfer ysgolion uwchradd, eu dosbarthu i ysgolion.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2012/13 cafodd CYSAG wybod am y cyhoeddiad gan y Gweinidog am adolygiad sydd yn yr arfaeth ynghylch asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Yn ystod Tymor yr Haf 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ail-fabwysiadu'r maes llafur presennol gyda dealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y bydd canlyniadau'r adolygiad ar asesu, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen ar gael.

Ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd ASC ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig presennol ar gyfer addysg grefyddol yn Nhorfaen, gyda dealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei ddisodli gan faes llafur cytunedig y Cwricwlwm i Gymru iddo gael ei gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2022. Cynghorwyd ysgolion uwchradd i barhau i ddilyn y maes llafur hwn tan i'r gwaith o gyflwyno CGM gael ei gwblhau.

Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau statudol ar gyfer CGM ar Hwb, ar 10 Ionawr 2022. Cynghorodd CYSAG yr LA ar y canllawiau statudol ar gyfer CGM alw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2022, fe wnaeth y CMLIC ymgynnull i gynhyrchu maes llafur cytunedig newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, i'w gyflwyno i Dorfaen. Mabwysiadodd Torfaen a CYSAG faes llafur cytunedig newydd ar gyfer ysgolion yr awdurdod, i'w gweithredu o fis Medi 2022 a hynny i bob dysgwyr mewn ysgolion cynradd, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 6. I ddysgwyr Blwyddyn 7, bydd gan ysgolion y rhanbarth hyblygrwydd ynghylch cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ai peidio ym Medi 2022, neu ei gyflwyno i Flynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol uwchradd neu leoliad 'fabwysiadu' Fframwaith Cwricwlwm Cymru ar gyfer grŵp blwyddyn benodol, bydd maes llafur cytunedig Torfaen yn disodli'r maes llafur presennol/hen faes llafur cytunedig Torfaen.

Mae'r maes llafur cytunedig yn nodi'r manylion ynghylch addysgu a dysgu'r elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer pob ysgol a lleoliad a gynhelir gan Dorfaen. Mabwysiadwyd y ddogfen fel maes llafur cytunedig ar gyfer CGM yn Nhorfaen yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae Torfaen wedi mabwysiadu'r ddogfen fel y maes llafur cytunedig ar gyfer CGM ym mis Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod Lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar Orffennaf 2022. Mae copïau o Faes Llafur Cytunedig Torfaen 2022 ar gael ar wefan y cyngor, trwy Bartner Cwricwlwm y GCA ar gyfer CGM a CYS a gan Glerc CYSAG.

2.2 Safonau mewn AG

Mae CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer monitro'r safonau a

gyflawnir gan ysgolion yr Awdurdod mewn perthynas ag addysg grefyddol gan gynnwys y canlynol:

Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Bu'n arfer gan CYSAG graffu ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Sir Torfaen ac os oes unrhyw faterion yn ymwneud ag addoli ar y cyd, fel diffyg cyflawni gofynion statudol, yna mae'r ALL yn mynd ar drywydd hyn drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2021-2022 gohiriwyd y broses hon a chaiff ei hail ystyried yn flwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae CYSAG wedi cytuno i barhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni gan ddefnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

Canlyniadau Arholiadau 2021

Bu'n arfer gan CYSAG i ddadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd ac mae'n nodi tueddiadau o ran perfformiad wedi'u meincnodi yng nghydestun holl ddata Cymru. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r broses hon wedi'i gohirio a bydd yn cael ei hail ystyried yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddi Athrawon

Dysgu Proffesiynol

Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (GCA) yn hysbysebu eu cyrsiau drwy CPD ar-lein. Penododd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Mrs Hayley Jones yn Bartner Cwricwlwm llawn amser (CYSau a CGM) - o fis Tachwedd 2021. Fe wnaeth Mrs Hayley Jones gynnig cefnogaeth bwrpasol i Addysg Grefyddol yn y rhanbarth yn ystod 2021-2022.

Cafodd CYSAG wybod bod y GCA wedi buddsoddi mewn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer AG a CGM. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gael cymorth uniongyrchol gan Bartner y Cwricwlwm ar gyfer AG/CGM a CYSAG/CYS, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, cynllunio, a dylunio eu cwricwlwm CGM a'r Cwricwlwm Dyniaethau. Mae ysgolion clwstwr hefyd yn cydweithio, gyda chymorth y cynghorydd i gyd-adeiladu a chydweithredu dyluniad eu cwricwlwm CGM a'r Dyniaethau ar hyd y continwrm dysgu, o 3 i 16 oed. Mae'r cynnig hwn yn agored i bob ysgol ac wedi caniatáu i ysgolion adeiladu a chynyddu'r berchnogaeth ar y cyd i ddatblygu'r cwricwlwm, addysgeg, ac arweinyddiaeth. Y model hwn yw'r prif sbardun o ran sicrhau y gwireddir y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 ymlaen a chyflwyno dysgu proffesiynol. Bydd yn cefnogi'r newidiadau cenedlaethol o ran atebolrwydd a hunan-werthuso. Gall ymarferwyr CGM gael hyd i ddysgu proffesiynol ac adnoddau'r GCA ar addysgeg.

Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar Addysg Grefyddol

Mae gwaith yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu (YRhD) ym mhob consortia wedi parhau trwy 2021-2022 ac mae'r canllawiau a'r gefnogaeth sy'n deillio o'r YRhD, ynghyd â'r gwaith a wnaed rhwng cydweithwyr ar draws CYSAGau a PYCAG, wedi'i rhaedru i athrawon AG. Mae YRhD Bassaleg wedi cynhyrchu a rhannu adnoddau i uwchsgilio ymarferwyr AG/CGM arbenigol trwy grynodedau gwybodaeth o brif grefyddau'r byd. Mae'r adnoddau hyn ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd yng ngofod Timau Dyniaethau'r

GCA ac mae pob cofnod o gyfarfodydd y Dyniaethau yn cael eu cofnodi a'u storio yn y ffeiliau yno, fel y gall ymarferwyr ddychwelyd atynt. Mae cymorth pwrpasol hefyd ar gael yn ôl y gofyn.

Deunyddiau Addysgu

Mae CYSAG wedi rhoi gwybod i ysgolion am ystod eang o ddeunyddiau addysgu, fel a ganlyn:

Ysgoloriaethau Farmington

Rhoddodd CYSAG wybodaeth i ysgolion yn Nhorfaen am Ysgoloriaethau Farmington 2022 - 2023 sydd am ddim i athrawon addysg grefyddol yn y Deyrnas Unedig. Gall ymarferwyr astudio unrhyw agwedd ar addysg grefyddol y maent yn dymuno ond ffefrir ymgeiswyr y gellir gweld bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu AG mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu costau dysgu, bwrdd a llety lle bo hynny'n briodol, teithiau lleol sy'n hanfodol a, thrwy drafod gyda'r ysgol, cyflog athro cyflenwi hyd at bwynt 6 ar y brif raddfa gyflog. Gellir cymryd Ysgoloriaethau yn yr ysgol/cartref ar ffurf rhyddhau am ddiwrnod, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros y flwyddyn neu am gyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod. Gellir cymryd Ysgoloriaethau mewn prifysgol fel bloc o hyd at wyth wythnos neu drwy rhyddhau am ddiwrnod, hyd at 30 diwrnod. Ceir rhagor o wybodaeth i ysgolion www.farmington.ac.uk neu drwy e-bostio: farmington@hmc.ox.ac.uk

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2022

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2022, ysgrifennodd CYSAG at bob ysgol i'w hannog i goffáu'r diwrnod mewn rhyw ffordd. Cawsant wybod y thema, ac am adnoddau addysgol yr Holocaust sy'n rhad ac am ddim, ac i'w gweld ar [wefan Diwrnod Cofio'r Holocaust](#) – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilmiau, astudiaethau achos, deunyddiau addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleuni gwaith sy'n addas i blant cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.

Ysgolion YRhD ar gyfer AG

Gweithiodd ymarferwyr sydd ynghlwm â'r cyfarfodydd YRhD ar y cyd i lunio a rhannu adnoddau ar gyfer TGAU a TAG Astudiaethau Crefyddol yn ogystal â'r CiG.

Cylchlythyr Dyniaethau GCA

Mae Cylchlythyr Dyniaethau GCA yn cael ei e-bostio i bob ysgol, bob tymor. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch addysgu a chyflwyno CGM ynghyd â diweddariadau yn ymwneud â gwaith a swyddogaeth CYSAG.

ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD

3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Bu'n arfer gan CYSAG i graffu ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Cyngor Torfaen ac os daw unrhyw faterion yn ymwneud ag addoli ar y cyd, fel diffyg cyflawni gofynion statudol, yna mae'r ALL yn mynd ar drywydd hyn gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2021-2022 gohiriwyd y broses hon a chaiff ei hail ystyried yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae CYSAG wedi cytuno i barhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni gan ddefnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion am benderfyniadau o ran diddymu'r gofynion i sicrhau bod gweithredoedd addoli ar y cyd yn gwbl neu'n bennaf Gristnogol eu natur.

3.3 Ymweliadau ag Ysgolion

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir i'r aelodau arsylwi gweithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ni chafodd yr aelodau gyfle i gynnal eu cyfarfod CYSAG mewn ysgol nac arsylwi ar weithred addoli ar y cyd yn ystod 2021-2022 oherwydd cyfyngiadau'n gysylltiedig â Phandemig Covid-19.

ADRAN 4: MATERION ERAILL

4.1 Cymdeithas CCYSAGauC

Mae CYSAG wedi parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae cynrychiolwyr wedi mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 cafodd y materion a drafodwyd yng nghyfarfodydd Cymdeithas CCYSAGauC eu hadrodd yn llawn i CYSAG. Mae CYSAG yn croesawu'r gwaith rhagweithiol a wneir gan CCYSAGauC i fynd i'r afael â materion sydd â goblygiadau i AG a sicrhau bod y CYSAGau sy'n aelodau o'r Gymdeithas yn cael eu hysbysu'n llawn. Mae CYSAG Torfaen wedi derbyn adborth rheolaidd gan Mrs Jones a'r rheini sy'n cynrychioli CYSAG yng nghyfarfodydd Cymdeithas CCYSAGauC.

4.2 ADDYSG YR HOLOCOST

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2022 – 'Un Diwrnod'

Mae Diwrnod Cofio'r Holocaust yn Un Diwrnod – 27 Ionawr – yr ydym yn ei neilltuo i ddod ynghyd i gofio, i ddysgu am yr Holocaust, Erledigaeth y Natsïaid a'r hil-laddiadau a ddilynodd yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur, yn y gobaith y gallai fod **Un Diwrnod** yn y dyfodol heb unrhyw hil-laddiad. Rydyn ni'n dysgu mwy am y gorffennol, rydyn ni'n cydymdeimlo ag eraill heddiw, ac rydyn ni'n gweithredu am ddyfodol gwell

Mae'r pandemig a'r cyfnod clo wedi parhau i gyflwyno heriau o ran coffáu'r digwyddiad, ac am yr ail flwyddyn, cynhaliwyd seremoni Diwrnod Cofio'r Holocaust y DU (DCH) 2022 ar-lein. Aeth Cymru ati hefyd i gynnal ei hail seremoni ddiigidol ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust. Dangosodd Sir Torfaen eu hymrwymiad i goffáu Diwrnod Cofio'r Holocaust trwy oleuo'r Ganolfan Ddinesig ym Mhont-y-pŵl a Glyn Ebwy yn borffor a gwyn. Darparwyd straeon hawdd eu darllen hefyd i ysgolion, er mwyn esbonio caledi a gwynwch pobl yn ystod yr Holocaust.

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2023, bydd CYSAG yn ysgrifennu at bob ysgol i'w hannog i goffáu'r diwrnod mewn rhyw ffordd, a bydd yn eu cynghori ynghylch y thema, ac adnoddau addysgol am ddim sydd ar gael am yr Holocaust, y gellir cael hyd iddynt ar [wefan Diwrnod Cofio'r Holocaust](#) – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilmiau, astudiaethau achos, deunyddiau addoli ar y cyd/ gwasanaethau a thafleuni gwaith sy'n addas i ddisgyblion cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.

4.3 CWRICWLWM I GYMRU 2022

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau tymhorol am y datblygiadau sy'n cael eu gwneud o ran Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Derbyniodd CYSAG, er gwybodaeth, copi embargo o ganllawiau CGM y CiG ym mis Rhagfyr 2021 a llwyddodd i ddechrau paratodau ar y Maes Llafur Cytunedig newydd (fel Cynhadledd Maes Llafur cytunedig) ar ddechrau 2022 ar ôl Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllawiau.

4.4 HYFFORDDI AELODAU CYSAG

Mae aelodau CYSAG yn derbyn hyfforddiant ar Rolau a Chyfrifoldebau CYSAG ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Ni chafodd aelodau gyfle i fynychu hyfforddiant yn ystod 2021-2022 oherwydd pandemig Covid-19. Caiff hyn ei drefnu yn 2022.

4.5 AELODAU CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth bresennol sy'n dangos y sefyllfa o fis Awst 2022 ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae'r seddi canlynol yn wag ar hyn o bryd:

Lleoedd cyfetholedig – Mae gan CYSAG ddau gynrychiolydd cyfetholedig ar y Pwyllgor a dau le gwag.

Pwyllgor A – Mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r ddau le sy'n weddill ar gyfer cynrychiolwyr yr Eglwys Rydd a saith lle gwag ar gyfer enwadau nad ydynt yn Gristnogol.

Pwyllgor B – Mae dau le yn parhau i fod yn wag ar gyfer Cynrychiolwyr NASUWT a NEU. Mae CYSAG wrthi'n ysgrifennu i ysgolion i geisio datganiadau o ddiddordeb i lenwi'r lleoedd hyn.

Swyddog CYSAG

Rhoddodd Lisa Hamer gymorth i CYSAG yn y rôl fel Swyddog Cymorth Busnes. Cychwynnodd Mrs Hayley Jones, Partner Cwricwlwm y GCA (CYS a CGM) yn ei swydd ym mis Tachwedd 2021 i ddarparu cymorth proffesiynol i CYSAG Torfaen. Mae Lisa Hamer hefyd yn parhau i weithredu fel Clerc CYSAG ac mae'r Aelodau yn ddiolchgar iawn am ei hymdrechion sy'n hanfodol i CYSAG Torfaen weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Atodiad 1: AELODAU CYSAG TORFAEN HYDREF 2020 - HAF 2021

MUDIADAU CREFYDD A CHREDOAU - PWYLLGOR A

Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru (1) – Ms Elizabeth Thomas

Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig (1) – Mr Stuart Allen

Cynrychiolwyr yr Eglwys Rhydd (5) –

- o Cynrychiolydd y Methodistiaid – Gwag
- o Cynrychiolydd y Bedyddwyr – Y Parch. Emma Mohr
- o Cynrychiolydd Byddin yr Iachawdwriaeth – Mrs J Horne
- o Cynrychiolydd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig – Gwag
- o Cynrychiolydd yr Eglwys Rhydd - Gwag

Ffydd Bahai'i (1) - Gwag

Ffydd Fwdhaidd (1) - Gwag

Ffydd Hindŵaidd(1) – Gwag

Ffydd Fwslimaidd (1) – Gwag

Ffydd Iddewig (1) – Gwag

Ffydd Sikhaidd (1) – Gwag

Dyneiddwyr Cymru (1) - Gwag

CYMDEITAHSAU ATHRAWON - PWYLLGOR B

NAS/UWT –Mrs Laura de Cruz – Cynrychiolydd Addysg Uwchradd (Cadeirydd)

NAS/UWT – Gwag

NEU – S Lewis, Ysgol Gyfun Croesyceiliog

NEU – Gwag

UCAC – Mr J Richards, Ysgol Gyfun Gwynllyw

ASCL – Anthony Ager – Ysgol Gyfun Abersychan

NAHT – Anna Britten – Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Ponthir

YR AWDURDOD LLEOL - PWYLLGOR C

Y Cyng. V Crick

Y Cyng. F Jones

Y Cyng. J Jones

AELODAU CYFETHOLEDIG (2)

Rhiannon Bennett – CBST

SWYDDOGION

Julian Doroszczuk – Pennaeth Dysgu/Swyddog Awdurdod Lleol

Hayley Jones (Partner Cwricwlwm y GCA ar gyfer CGM a CYS)

CLERC CYSAG

Lisa Hamer, Swyddog Cymorth Busnes

Lisa.Hamer@torfaen.gov.uk

ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU

Cyfarfod CYSAG Torfaen - Hydref Dydd Mercher 27 Ionawr 2022, 10am, Microsoft Teams (Gohiriwyd)

AGENDA

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Ethol/ail-ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
3. Diweddariadau am yr Aelodaeth
4. Derbyn nodiadau a chofnodion y cyfarfod blaenorol ar 16 Mehefin 2021
5. Adroddiad Blynyddol 2020-2021
6. Diweddariadau am y Cwricwlwm
7. Diweddariadau asesu CBAC
 - Asesiadau TGAU ar gyfer 2022
 - Asesiadau TAG ar gyfer 2022
8. Canllawiau ar gynllunio a chyflawni Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) gorfodol – y diweddaraf
9. Diweddariad ar y Cwricwlwm i Gymru
10. Y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig
11. Dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2022
12. **CCYSAGauC:**
 - Derbyn nodiadau a chofnodion cyfarfod 16/06/2021
 - Cyfarfod 23 Tachwedd 2021
 - Cyfarfod ar-lein, gwahoddir hyd at 4 aelod o CYSAG
13. Diwrnod Cofio'r Holocaust
14. DCH 27 Ionawr 2022 – Thema 'Un Diwrnod'
15. Unrhyw Fater Arall

Cyfarfod CYSAG Torfaen - Gwanwyn Dydd Mercher, 16 Chwefror 2022, 10am, Microsoft Teams

AGENDA

13. Croeso ac Ymddiheuriadau
14. Ethol/ail-ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
15. Diweddariadau am yr Aelodaeth
16. Derbyn nodiadau a chofnodion y cyfarfod blaenorol ar 16 Mehefin 2021
17. Adroddiad Blynyddol 2020-2021
18. Diweddariadau am y Cwricwlwm
19. Diweddariadau asesu CBAC
 - Asesiadau TGAU ar gyfer 2022
 - Asesiadau TAG ar gyfer 2022
20. Canllawiau ar gynllunio a chyflawni Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) gorfodol – y diweddaraf
21. Diweddariad ar y Cwricwlwm i Gymru
22. Y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig
23. Dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2022
24. **CCYSAGauC:**
 - Derbyn nodiadau a chofnodion cyfarfod 16/06/2021
 - Cyfarfod 23 Tachwedd 2021
 - Cyfarfod ar-lein, gwahoddir hyd at 4 aelod o CYSAG

13. Diwrnod Cofio'r Holocaust
14. DCH 27 Ionawr 2022 – Thema 'Un Diwrnod'
15. Unrhyw Fater Arall

Cyfarfod CYSAG Torfaen - Haf

Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2022, 10am, Microsoft Teams (Rhannu Gwybodaeth)

AGENDA

1. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datgan Buddiannau.
- 3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi:
 - Cyfarfod Gwanwyn CYSAG a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Chwefror 2022
 - Cyfarfod MLIC a gynhaliwyd 7 Ebrill 2022
 - Cyfarfod MLIC 2 a gynhaliwyd 16 Mehefin 2022
4. Diweddariad gan yr Ymgynghorydd AG
6. Amserlen Cyfarfodydd 2022/23

CCYSAGauC :

- Adborth yn dilyn Cyfarfod Rhithiol CCYSAGauC yn y Gwanwyn a gynhaliwyd gan Gastell-nedd Port Talbot ar 6 Ebrill 2022.
 - Adborth yn dilyn Cyfarfod Rhithiol CCYSAGauC yn yr Haf a'r CCB ar 29 Mehefin 2022.
 - Pleidleisio Gweithredol 2022 – Etholiadau Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC
 - Cynrychiolaeth yng Nghyfarfodydd CCYSAGauC sydd ar y gweill (diweddariad ar lafar)
7. Hydref 2022 dyddiad i'w gadarnhau.

Oherwydd y tarfu parhaus yn sgil pandemig Covid-19, roedd CYSAG yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cynnal cyfarfodydd â chworwm eleni. Nodwch fod y cyfarfod a drefnwyd yn yr Hydref wedi'i ganslo ynghyd â chyfarfod tymor yr Haf a'r sesiwn rhannu gwybodaeth oherwydd effaith pandemig Covid-19 ar ryddhau staff ysgol.

ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD

Caiff copïau eu hanfon ar ffurf electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cymdeithas CYSAGau Cymru i bartïon sydd â diddordeb eu lawr lwytho.

Aelodau Torfaen

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg

Cyfarwyddwr Rhanbarthol SEWC (Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru. (GCA)

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Holl Ysgolion y Fwrdeistref Sirol

Holl aelodau CYSAG

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ESTYN